



YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU 2019-2020

Beth yw'r Ysgol Ddoethurol?

Prif bwrpas yr Ysgol Ddoethurol ydy cyfoethogi eich profiad chi fel myfyriwr ymchwil ôl-radd ym Mangor, ac i sicrhau eich bod yn gwredden eich potensial yn llawn. Rydyn ni hefyd yn ceisio datblygu a chefnogi cymuned ymchwil rhyngddisgyblaethol ac integredig, gyda myfyrwyr ymchwil yn rhan greiddiol ohoni, wrth hybu cyfleoedd cyfartal a chydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith. Gwnawn ein gorau i wobrwyo arferion ac ymdrechion da pan fo'n briodol, ac anelu i gynnig y profiad myfyrwyr gorau posib.

'Mae gofynion myfyrwyr doethuriaeth a graddau doethuriaeth yn newid ac rydym yn cydnabod hynny drwy adeiladu sefydliad neilltuol i uno a hyrwyddo addysg a gweinyddiaeth o safon uchel i raddedigion ar draws y brifysgol er mwyn creu amgylchedd ymchwil rhagorol i gefnogi datblygiad ymchwilwyr annibynnol'



Yr Artho John Turner, Deon Ymchwil Ol-radd



Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar hyn o bryd:

- Rhaglen Hyfforddiant a Datblygiad
- PGCert HE y sefydliad
- Cyfleoedd Prosiectau Ymchwil
- Fideos i gefnogi Myfyrwyr Doethuriaeth
- Cynllun Datblygiad Personol(PDP)
- Gwybodaeth i Oruchwylwyr Doethurol
- Cymdeithas Myfyrwyr Ôl-radd
- Cystadlaethau
- Ysgoloriaethau
- Cysylltu â Cyfarwyddwyr Astudiaethau Ôl-radd(PGR)
- Proffiliau Ymchwil a Phosteri
- Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol(DTPs)/ Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS2)
- Cysylltiadau ac Adnoddau
- Newyddion a Digwyddiadau

YSGOL DDOETHUROL

Prifysgol Bangor, Bangor,
Gwynedd, LL57 2DG
www.bangor.ac.uk/doctoral-school/

Phone: 01248 382357

Email: pgr@bangor.ac.uk

 @PhD_BangorUni

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU - HYDREF 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen
Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
02/10/2019	09.00 yb -2.00 yb	Digwyddiad rhagarweiniol ar gyfer myfyrwyr ymchwil newydd (* Ailadrodd yn Ionawr 2020 & Mai 2020)	Mae croeso cynnes i bob Ymchwilydd Ôl-raddedig newydd i fynychu'r digwyddiad cynefino. Bydd yn gyfle perffaith i ymchwilwyr newydd gwrdd a'i gilydd. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwybodaeth gan yr Ysgol Ddoethurol, Gwasanaethau Myfyrwyr, Gwasanaeth Llyfrgell ac Undeb y Myfyrwyr. Cewch gyfle i gwrdd a'r wynebaw y tu ôl i'r negeseuon e-bost. Rydym hefyd wedi gwahodd goruchwyliwr ac ymchwilydd ôl-raddedig i gyfrannu i'r diwrnod.
3/10/2019	11.00 yb – 1.00 yb	Cyflwyniad i Gyfrifiadura Ymchwil Bangor. (Gweithdy i oruchwylwyr myfyrwyr ôl-radd ymchwil a doethurol gan Gyfrifiadura Ymchwil Bangor, mewn cydweithrediad â Uwchgyfrifiadura Cymru)	Mae cyfrifiaduron yn rhan hanfodol o lawer o ymchwil fodern. Bydd y sesiwn hon yn cyflwyno'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael ym Mangor, yn amrywio o fwrdd gwaith i uwchgyfrifiaduron, ac o hyfforddiant grŵp i gymorth personol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at rai achosion o ddefnydd nodweddiadol o'r systemau y gallwn eu cynnig.
08/10/2019	09.30 yb-11.00 yb	Chwilio Llenyddiaeth (* Ailadrodd yn Tachwedd 2019, Chwefror & Mawrth, Mehefin 2020)	Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r meysydd isod: <ul style="list-style-type: none"> • Technegau chwilio. • Defnyddio cronfeydd data electronig. • Chwilio uwch. • Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil newydd – ymwybyddiaeth gyfredol. • Cadw ac ail-wneud strategaethau chwilio.
16/10/2019	09.30 yb-11.00 yb	Sut i ddefnyddio RefWorks (* Ailadrodd yn Tachwedd 2019, Chwefror & Mawrth, Gorffennaf 2020)	Yn y sesiwn hon dangosir i chi sut i ddefnyddio RefWorks i: <ul style="list-style-type: none"> • Arbed cyfeiriadau o chwiliadau ar y rhyngwyd a chronfa ddata • Mewnforio PDF i mewn i'ch cyfrif • Trefnu eich cyfeiriadau mewn ffolderi • Creu rhestr gyfeiriadau awtomatig ar ddiwedd traethawd

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU - HYDREF 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen
Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
16/10/2019	11.00 yb- 12.30 yp	Sut i ddefnyddio Mendeley (* Ailadrodd yn Tachwedd 2019, Chwefror & Mawrth, Gorffennaf 2020)	Yn y sesiwn hon dangosir i chi sut i ddefnyddio Mendeley i: <ul style="list-style-type: none"> • Arbed cyfeiriadau o chwiliadau ar y rhyngwrwyd a chronfa ddata • Mewnforio PDF i mewn i'ch cyfrif • Trefnu eich cyfeiriadau mewn ffolderi • Creu rhestr gyfeiriadau awtomatig ar ddiwedd traethawd
21/10/2019	10.00 yb- 11.00 yb	Cyflwyniad i Eiddo Deallusol (* Ailadrodd yn Mawrth 2020)	Cyflwyniad i helpu ymchwilwyr i ddeall hanfodion eiddo deallusol a sut mae'r brifysgol yn rheoli hyn.
24/10/2019	1.00 yp -2.30 yp	Cyflwyniad i Effaith (* Ailadrodd yn Mawrth 2020)	Mae'r effaith sy'n deillio o'ch ymchwil yn rhan gynyddol bwysig o'r byd academaidd. Mae effaith yn golygu'r newidiadau, neu'r buddion a ddaw i'r gymdeithas yn sgil eich ymchwil chi - felly ar y cwrs Cyflwyniad i Effaith byddwn yn edrych ar sut i gynhyrchu newidiadau i fuddiolwyr anacademaidd trwy eich ymchwil, a chynllunio ar gyfer hynny. Gallwch beri newidiadau o fewn y byd academaidd trwy eich allbynnau ymchwil, trwy gydweithio a thrwy addysgu ond mae effaith yn yr ystyr sydd gennym ni dan sylw'n golygu gwneud gwahaniaeth yn y byd ehangach.
24/10/2019	10.00 yb – 11.00 yb	Cyhoeddi Mynediad Agored	Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r meysydd isod: <ul style="list-style-type: none"> • Egwyddorion cyhoeddi Mynediad Agored. • Gofynion cyllidwyr yng nghyswllt cyhoeddi Mynediad Agored • Dewisiadau o ran cyhoeddi cylchgronau Mynediad Agored. • Y broses o ychwanegu eich cyhoeddiadau at e-Bangor, sef Cadwrfra ddigidol y Brifysgol. Gwybodaeth ynglŷn â chyllido o Gynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig sydd ar gael ar gyfer cyhoeddi Mynediad Agored.
TBC	TBC	Gweithdy Cyhoeddi'r Gymdeithas Frenhinol	Bydd y tîm Cyhoeddi o'r Gymdeithas Frenhinol yn cynnal gweithdy cyhoeddi sydd wedi'i anelu at fyfyrwyr Meistr, ymchwilwyr PHD ac Ôl-ddoethurion. Bydd y sesiwn yn ymdrin â phob agwedd ar sut i gyhoeddi papur gwyddonol mewn cyfnodolion rhyngwladol o safon uchel. Bydd y sesiwn ryngweithiol yn cynnwys cyflwyniadau ac ymarferion, gyda sesiwn holi ac ateb. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael am y Gymdeithas Frenhinol a'i chyfnodolion.

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU - HYDREF 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen
Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
29/10/2019	9.00 yb- 4.30 yp	Cyflwyniad i R (*Ailadrodd yn Ebrill 2020)	Mae hwn yn gwrs undydd dwys ar R. Bydd y cwrs yn gymysgedd o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol ar gyfrifiadur. Y prif ffocws fydd cyflwyno rhai o gysyniadau sylfaenol R. Ni ragdybir unrhyw wybodaeth flaenorol am raglennu. Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer ystod eang o ymgeiswyr. Amlinelliad o'r cwrs: Cyflwyniad i R: Trosolwg cryno o'r cefndir a nodweddion system rhaglennu ystadegol R. Cofnodi Data: Disgrifiad o sut i fewnforio ac allforio data oddi ar R. Mathau o ddata: Crynodeb o fathau o ddata R. Amgylchedd R: Disgrifiad o amgylchedd R yn cynnwys cyfeiriadur gwaith R, creu/defnyddio sgriptiau, cadw data a chanlyniadau. Graffeg R: Creu, golygu a storio graffeg yn R. Trin data yn R: Disgrifio sut i drin data yn R trwy ddefnyddio gweithredyddion rhesymegol.
30/10/2019	9.00 yb- 4.30 yp	Modelu ystadegol yn R (*Ailadrodd yn Ebrill 2020)	Mae hwn yn gwrs undydd dwys ar fodelu yn R. Bydd y cwrs yn gymysgedd o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol ar gyfrifiadur. Gwybodaeth flaenorol: rhagdybir y bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn gyfarwydd ag R. Er enghraifft: cofnodi data, delweddu sylfaenol a fframiau data. Bydd dilyn un o'r cyrsiau cyflwyno R yn darparu gwybodaeth ddigonol. Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer ystod eang o ymgeiswyr. Amlinelliad o'r cwrs: Profi damcaniaethau sylfaenol: mae enghreifftiau'n cynnwys prawf-t un sampl, prawf un sampl arwyddion graddedig Wilcoxon, prawf-t dau sampl annibynnol, prawf Mann-Whitney, prawf-t dau sampl ar gyfer samplau wedi'u paru, prawf arwyddion graddedig Wilcoxon. Byrddau ANOVA: Tablau 1-ffordd a 2-ffordd. Atchweliad llinellol syml a lluosog: yn cynnwys disgnosteg modelau. Clystyru: clystyru hierarchaidd, kmeans. Dadansoddi prif gydrannau: dadansoddi a graddio data.

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU – HYDREF/ TACHWEDD 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen
Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
31/10/2019	9.00 yb- 4.30 yp	Rhaglennu yn R (*Ailadrodd yn Ebrill 2020)	Mae hwn yn gwrs undydd dwys ar R. Bydd y cwrs yn gymysgedd o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol ar gyfrifiadur. Prif ffocws y cwrs yw technegau rhaglennu R, megis gweithrediadau, ar gyfer dolennau a mynegiannau amodol. Mae'r cwrs yn ddilyniant i'r cwrs Cyflwyniad i R. Rhagdybir bod pob myfyriwr wedi dilyn y cwrs hwn (neu fod ganddynt sgiliau cyfatebol). Mae'r cwrs hwn yn addas i ystod eang o ymgeiswyr. Amlinelliad o'r cwrs: Gweithrediadau factor: manylion am weithrediadau factor R. Amodolion: defnyddio datganiadau "if" ac "else" yn R. Gweithrediadau: beth yw'r gweithrediadau, sut mae eu defnyddio, a sut allwn greu ein gweithrediadau ein hunain. Dolennu yn R: cyflwyniad i'r cysyniad o ddolennu yn R. Yn arbennig dolennau "for" a "while". Y gweithrediadau cymhwyso: apply, tapply ac aelodau eraill o deulu apply.
01/11/2019	9.00 yb- 4.30 yp	Graffeg Uwch yn R (*Ailadrodd yn Ebrill 2020)	Mae hwn yn gwrs undydd dwys graffeg uwch gydag R. Gelwir y gorchmynion plotio safonol yn R yn Graffeg Sylfaen. Yn y cwrs hwn, byddwn yn cynnig hyfforddiant mewn pecynnau graffeg uwch - yn benodol, ggplot2. Gall y pecyn ggplot2 greu graffeg ddatblygedig iawn a llawn gwybodaeth. Rhagdybir gwybodaeth sylfaenol o R ar gyfer y cwrs hwn. Yn benodol, dylai'r sawl sy'n ei ddilyn fod yn gyfarwydd â'r meysydd yr ymdrinnir â hwy yn y cwrs Cyflwyno R. Bydd y cwrs hwn yn gymysgedd o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol ar gyfrifiadur. Y nod yw galluogi'r rheiny sy'n cymryd rhan i gymhwyso'r technegau a gyflwynir i'w data eu hunain. Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer ystod eang o ymgeiswyr. Amlinelliad o'r cwrs: Gramadeg graffeg; Meistroli'r gramadeg; Grwpiau, geoms, ystadegau a haenau; Graddfeydd, echelinau ac allweddau; Ffasedau.

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU – TACHWEDD 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
07/11/2019	10.00 yb – 11.30 yb	Cyflwyniad I Reoli Data Ymchwil (* Ailadrodd yn Mawrth 2020)	<p>Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r meysydd isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pam y mae rheoli a chynllunio data ymchwil yn hollbwysig. • Dewisiadau o ran storio data ymchwil. • Cadw, ail-ddefnyddio ac archifo data ymchwil. • Curadu Data Ymchwil: labelu a disgrifio cyfresi data. <p>Disgwyliadau y cyllidwyr a chyfrifoldebau cyfreithiol.</p>
07/11/2019	1.00 yp – 2.30 yp	Adrodd am Ganlyniadau eich Ymchwil: PURE & Researchfish (* Ailadrodd yn Mawrth 2020)	<p>Fel ymchwilydd ôl-radd, mae'n rhaid i chi adrodd am ganlyniadau eich ymchwil i'ch cyllidwyr ac i'ch prifysgol eich hun. Beth am ddod i sesiwn i ddeall mwy am y broses hon a dysgu sut i ddefnyddio ein system gwybodaeth ymchwil fewnol - PURE - i wneud hyn. Byddwn hefyd yn edrych ar gronfa ddata Researchfish sef y system a ddefnyddir gan nifer gynyddol o gyllidwyr - gan gynnwys y Cynghorau Ymchwil (UKRI) er mwyn adrodd am ganlyniadau ymchwil. Yn y sesiwn hon byddwn yn edrych ar y pynciau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth mae adrodd am ganlyniadau ymchwil yn ei olygu ac enghreifftiau o ganlyniadau ymchwil e.e. allbynnau, ymgysylltu â'r cyhoedd, cydweithredu, effaith • System PURE <ul style="list-style-type: none"> ○ Beth yw PURE a pham ein bod yn ei defnyddio ○ Cyhoeddi eich proffil ymchwil ○ Sut mae diweddarau eich proffil, y gadwrfa sefydliadol a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymchwil (e.e. effaith) • Adrodd am Ganlyniadau Ymchwil yn defnyddio ResearchFish <ul style="list-style-type: none"> ○ Defnyddio Researchfish i adrodd am ganlyniadau i RCUK a rhai cyllidwyr allweddol eraill • Data a gynhyrchir trwy'r broses o adrodd am ganlyniadau

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU – TACHWEDD 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
06/11/2019	2.00 yp – 4.00 yp	Paratoi at basio eich Viva (*Ailadrodd yn Mawrth 2020)	<p>Y prafw Viva Voce yw cam olaf eich doethuriaeth. Ai dyma'r elfen fwyaf brawychus o'r cwbl? Nage, go brin...</p> <p>Bydd hon yn sesiwn hynod gyfranogol a byddwn yn bwrw golwg manwl ar bwrpas y Viva - sef cadarnhau eich bod yn bodloni meini prafw yr asesiad a bod modd rhoi doethuriaeth i chi. Byddwn yn ystyried sut y gallen nhw fynd ati i gynnal y viva. Yna mi wnawn ni ddefnyddio hynny'n sail ar gyfer cynllunio at y viva fel y byddwch chi'n gwbl barod ar ei gyfer. Y nod yw y daw'n ddathliad terfynol o ddoethuriaeth lwyddiannus, yn hytrach na rhywbeth i'w ofni.</p>
07/11/2019	9.30 yb - 4.00 yp	Sut i fod yn Ymchwilydd effeithiol ar gyfer Ôl-raddedigion (*Ailadrodd yn Mawrth 2020)	<p>Mae doethuriaeth yn ymwneud â dod yn ymchwilydd annibynnol. Mae hyn yn ymwneud â meistrolaeth ar eich disgyblaeth, ond hefyd â datblygu medrau eraill. Bydd y cwrs undydd hwn yn canolbwyntio ar ddau brif faes, sef rheoli'r broses ymchwil fel project, a medrau cyfathrebu hanfodol, yn cynnwys rheoli eich Goruchwylwyr. Mae'n gwrs rhyngweithiol iawn, lle byddwch yn ymdrin â materion yn ymarferol ac yn rhannu syniadau â grŵp amrywiol o gyd-ymchwilyddwyr. Fodd bynnag, y nod fydd i chi gael syniadau ymarferol a diriaethol y gellwch eu rhoi ar waith ar unwaith, er mwyn bod yn ymchwilydd doethurol mwy effeithiol.</p>
08/11/2019	9.30 yb - 4.00 yp	Gwneud Cynnydd yn Ail Flwyddyn eich PhD (*Ailadrodd yn Mawrth 2020)	<p>Gall ail flwyddyn doethuriaeth, neu'r rhan ganol, fod y fwyaf heriol. Nod y cwrs undydd hwn fydd eich helpu i oresgyn y sialens hon, a chynnal y momentwm y bydd ei angen arno er mwyn cwblhau eich doethuriaeth yn llwyddiannus mewn da bryd. Yn benodol, byddwn yn edrych ar rai ffactorau sy'n dyngedfennol i lwyddiant ail flwyddyn PhD, yn ogystal â diffinio'r hyn sydd ei angen yn y pen draw ar gyfer ymresymiad clir mewn ymchwil a'r modd y byddwch yn mynegi hyn yn eich Thesis. Byddwn hefyd yn ymdrin â gofynion y meini prafw asesu ar gyfer doethuriaeth. Byddwn yn defnyddio hyn oll i'ch helpu i bennu'ch cynllun unigol eich hun ar gyfer cyfnod nesaf eich doethuriaeth.</p>

YSGOL DDOETHUROL – RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU – TACHWEDD 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen
Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Date	Time	Name of Course	Course Details.
18/11/2019	9.00 yb – 12.00 yp	Cyflwyniad i'r Linux Shell (Gweithdai gan Gyfrifiadura Ymchwil Bangor, mewn cydweithrediad ag Uwchgyfrifiadura Cymru) (* Ailadrodd yn Chwefror 2020)	Mae Rhyngwynebau Defnyddwyr Graffigol yn iawn yn eu lle, ond mae command-line yn cynnig galluedd pwerus sy'n galluogi gweithredoedd cymhleth am fewnbynnau cymharol fach. Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno'r Shell a sut mae rhedeg tasgau trwyddo. Yna mi welwn ni'r pŵer sydd o gyfuno gweithredoedd o'r fath mewn ffyrdd newydd. Mi wnaiff y cwrs hwn eich helpu chi ddeall yr amgylchedd nodweddiadol y defnyddir Shell ynddo, oherwydd yn aml mae'n allweddol o ran cael mynediad at amrywiol offer ac adnoddau cyfrifiadurol, gan gynnwys uwchgyfrifiaduron.
19/11/2019	9.00 yb – 12.00 yp	Rheoli Fersiynau gan ddefnyddio Git (Gweithdai gan Gyfrifiadura Ymchwil Bangor, mewn cydweithrediad ag Uwchgyfrifiadura Cymru) (* Ailadrodd yn Chwefror 2020)	Mae systemau rheoli fersiynau'n ein helpu ni fel timau ac unigolion i reoli newid i god ffynhonnell meddalwedd wrth iddo esblygu dros amser. Mae defnyddio dulliau rheoli fersiynau yn golygu bod pob newid yn cael ei gofnodi ac mae'n bosib ei gymharu at y dyfodol, yn ogystal â'r rhesymau dros eu gweithredu. Git yw un o'r systemau rheoli fersiynau mwyaf poblogaidd heddiw. Mae'n fodd i ddefnyddio dull cydweithredol a phroffesiynol o ddatblygu meddalwedd. Bydd y cwrs hwn yn eich dysgu am reoli fersiynau gan ddefnyddio'r system Git mewn amgylchedd Linux Shell, gan gynnwys seilwaith lletya o bell poblogaidd GitHub.
21/11/2019	10.00 yb – 12.00 yp	Rheoliadau Cyffredinol Gwarchod Data (GDPR) i Ymchwilwyr (* Ailadrodd yn Ionawr 2020)	Yn y sesiwn hon amlinellir gofynion Rheoliadau Cyffredinol Gwarchod Data (GDPR) a Ddeddf Diogelu Data 2018. Bydd cyfle wedyn i ymchwilwyr gael gwybodaeth bellach ar faterion penodol perthnasol i'w diddordebau ymchwil ac i ymdrin â senarios penodol. Bydd y rhain yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw'r rheolau newydd ar gael cydsyniad ar gyfer ymchwil? • Pa mor hir y dylwn i fod yn cadw fy nata ymchwil? • Beth mae GDPR yn ei ddweud am siwdoanonymeiddio / anonymeiddio? • Pa fesurau diogelwch ddylwn i fod yn eu defnyddio ar gyfer fy ymchwil dan GDPR? • Beth am ddadansoddi data eilaidd? <p>Arweinir y sesiwn gan Gwenan Hine, Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, ac fe'i hwylusir gan Dr Penny Dowdney o'r Ysgol Ddoethurol.</p>

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU – TACHWEDD 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen
Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
26/11/2019	10.00 yb – 11.30 yb	Cyflwyniad i Chwilio ar gyfer Adolygiadau Systematig (* Ailadrodd yn Mawrth 2020)	Bydd y sesiwn hon yn darparu awgrymiadau chwilio ar gyfer "Adolygiadau Systematig", yn cynnwys: cynllunio strategaeth chwilio briodol, chwilio cronfeydd-ddata gan gynnwys defnyddio MeSH a mynegeion eraill, ddefnyddio ffilterau chwilio, dogfennu'r broses chwilio, a rheoli cyfeiriadau gan ddefnyddio meddalwedd rheoli cyfeiriadau. Efallai na fydd y sesiwn hon yn ddefnyddiol i chi os nad ydych yn mynd i gynnal "adolygiad systematig" fel rhan o'ch gwaith ymchwil. Mae "adolygiad systematig" yn ceisio nodi, gwerthuso a syntheseiddio holl dystiolaeth empirig sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster, i ateb cwestiwn ymchwil. "Mae adolygiadau systematig" yn elfennau ymchwil cyffredin mewn gwyddorau gofal iechyd, seicoleg, gwyddorau cymdeithasol, a dod yn fwy pwysig yn y Gwyddorau Naturiol.
27/11/2019	10.00 yb – 12.00 yp	Gweithdai cynaliadwyedd i ymchwilwyr ôl-raddi Ymchwilwyr (* Ailadrodd yn Mawrth 2020)	Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwmo i ddod yn university brifysgol gynaliadwy. Yn ddiweddar ymunodd â Phrifysgolion eraill i ddatgan Argyfwng Hinsawdd. Mewn ymateb i hyn mae PB wedi ymrwmo i "Ymgymryd â gweithgareddau ymchwil, arloesi ac effaith sy'n mynd i'r afael â heriau byd-eang (e.e. newid yn yr hinsawdd) sy'n adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygu cynaliadwy ac i nodau cynaliadwyedd ehangach (Nodau Llesiant Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig)." Mae cytundeb cyffredinol bod cyfran sylweddol (os nad y cyfan) o'n hymchwil yn ymwneud ag elfennau o gynaliadwyedd, y nodau llesiant a / neu nodau'r Cenhedloedd Unedig ac rydym wrthi'n casglu tystiolaeth i gefnogi'r honiad. Bydd y gweithdy hwn yn eich herio i fyfyrion ar sut mae eich hymchwil yn cyfrannu at y darlun ehangach a sut mae'n cwrdd â nodau Cymru a'r nodau byd-eang. Sylwch fod y gweithdy hwn yn berthnasol i bob myfyriwr ôl-radd ar draws pob Coleg. Os ydych yn tybio mai dim ond rhywbeth i wneud â newid yn yr hinsawdd a phlastig defnydd sengl yw cynaliadwyedd, a fawr ddim i wneud â'ch pwnc na'ch hymchwil chi, dyma'r gweithdy i chi. Dewch draw i gymryd rhan mewn sesiwn fywiog ar y pwnc cyfredol hwn a chyfathrebu'n ehangach pa mor berthnasol yw'ch hymchwil chi i gynaliadwyedd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Gwenith Elias: gwenith.elias@bangor.ac.uk

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU – RHAGFYR 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen Digwyddiadau :
<https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
02/12/2019	9.30 yb – 04.30 yp	Egwyddorion ac Ymarfer Rhaglennu gan ddefnyddio Python (Gweithdai gan Gyfrifiadura Ymchwil Bangor, mewn cydweithrediad ag Uwchgyfrifiadura Cymru) (* Ailadrodd yn Mai 2020)	<p>Ar y cwrs hwn, byddwch yn dysgu am y cysyniadau a'r arferion gorau sy'n ymwneud â rhaglennu sylfaenol gan ddefnyddio Python. Bydd y cwrs yn cynnwys elfennau hyfforddedig ac elfennau ymarferol.</p> <p>Mae Python yn iaith raglennu bwerus a hyblyg sydd wedi'i chynllunio ar gyfer rhwyddineb ei defnydd a chynhyrchedd gwell. Ar hyn o bryd mae'n un o'r ieithoedd rhaglennu sy'n tyfu gyflymaf yn y byd ac fe'i defnyddir yn aml ar gyfer dysgu peirianyddol a dadansoddi data.</p> <p>Bydd y sgiliau a gewch chi ar y cwrs hwn yn eich galluogi i ysgrifennu cod defnyddiol, cywir, cynaliadwy ac effeithlon. Gellir cymhwyso llawer o'r egwyddorion rhaglennu i ieithoedd rhaglenni eraill fel R a MATLAB.</p>
03/12/2019	9.30 yb – 04.30 yp	Python Uwch (Gweithdai gan Gyfrifiadura Ymchwil Bangor, mewn cydweithrediad ag Uwchgyfrifiadura Cymru) (* Ailadrodd yn Mai 2020)	<p>Ar y cwrs hwn, byddwch yn dysgu cysyniadau iaith Python uwch. Bydd y cwrs yn cynnwys elfennau hyfforddedig ac elfennau ymarferol.</p> <p>Mae Python yn helaeth iawn o ran ei alluoedd a'i ddefnyddiau, trwy amrywiaeth o alluoedd Pythonig uwch. O ddefnyddio'r galluoedd hynny gallwn gynnal profion a phrofi methiannau'n fwy trylwyr yn ogystal â chyfrifiannu mwy cryno ac effeithlon.</p>
04/12/2019	9.30 yb – 04.30 yp	Prosesu Cyfochrog yn Python (Gweithdai gan Gyfrifiadura Ymchwil Bangor, mewn cydweithrediad ag Uwchgyfrifiadura Cymru) (* Ailadrodd yn Mai 2020)	<p>Ar y cwrs hwn, byddwch yn dysgu sut mae ysgrifennu, proffilio a rhedeg rhaglenni Python cyfochrog.</p> <p>Mae gan y rhan fwyaf o gyfrifiaduron unedau prosesu lluosog heddiw. Yn ddiodyn, fydd Python ond yn defnyddio un prosesydd ar gyfer cyfrifiant penodol. Fodd bynnag, mae Python yn cynnig nifer o lyfrgelloedd toreithiog i alluogi rhaglennu cyfochrog. Yn aml gall rhaglenni sy'n gallu cyrchu a defnyddio unedau prosesu lluosog gyflymu cyfrifiant penodol o ffactor sy'n agos at gyfanswm y proseswyr sydd ar gael - boed ar beiriant sengl neu uwchgyfrifiadur.</p> <p>Mi wnaiff y sgiliau a gewch chi ar y cwrs hwn eich galluogi i broffilio a chyfuno unrhyw godau python a sicrhau y bydd yn rhedeg ar beiriant pen desg neu glwstwr uwchgyfrifiadura.</p>

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU – RHAGFYR 2019

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen
Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>


Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
05/12/2019	10.00 yb- 12 yb	Sesiwn Ymgyfarwyddo PURE (* Ailadrodd yn Chwefror 2020)	Bydd y sesiwn yn ymdrin a'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Trosolwg Cyffredinol PURE Eich proffil personol, negeseuon e-bost a negeseuon PURE, porth PURE Rheoli eich allbynnau a'r ystorfa PURE Rheoli eich Effeithiau a Gweithgareddau ymchwil Cyfle ar gyfer unrhyw gwestiwn
09/12/2019	11.30 yb – 12.30 yb	Caniatâd hawlfraint ar gyfer eich Thesis Doethurol (* Ailadrodd yn Ebrill, Mehefin 2020)	Cyhoeddir eich thesis PhD ar fynediad agored ar Gadwrfa ddigidol y Brifysgol. Gofalwch eich bod yn gwybod am faterion hawlfraint yn ymwneud â chyhoeddi eich thesis.
10/12/2019	03.00 yb – 4.30 yb	Cael eich cyhoeddi a dilyn eich dyfyniadau (* Ailadrodd yn Ebrill 2020)	Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r meysydd isod: <ul style="list-style-type: none"> Strategaeth cyhoeddi a chynllunio Lle i gyhoeddi. Ffactorau Effaith , a dilyn eich dyfyniadau.
12/12/2019	9:00 yb-4:30 yb	Rheoli Projectau: Rheoli'r PhD (* Ailadrodd yn Mawrth 2020)	Y cwestiynau i'w gofyn a'r pethau pwysicaf yr ydych chi angen eu gwybod. Yn eich gyrfa ymchwil, mae'n debyg y byddwch yn gorfod trefnu, dadansoddi a chyflwyno llawer iawn o wybodaeth. Hefyd byddwch yn gorfod rheoli eich amser, gosod nodau ac adolygu cynnydd - ac mae'n debyg y byddwch yn gorfod gweithio gydag eraill i'w hannog i wneud yr un fath. Yn aml gosodir y set sgiliau hon o dan bennawd "Rheoli Projectau" ac mae amrywiaeth eang o gyflogwyr yn chwilio amdani. Erbyn diwedd y sesiwn, dylai'r rhai sy'n bresennol allu: <ul style="list-style-type: none"> Deall meini prawf rheoli projectau'n llwyddiannus ac ystyried hefyd pam mae rhai projectau'n methu Deall, gwerthuso a gweithredu gwahanol ddulliau i helpu cynllunio ymchwil a chyfathrebu'r cynllun hwnnw Gwerthfawrogi pwysigrwydd dadansoddi budd-ddeiliaid a risg Pa un a yw eich PhD yn seiliedig ar dîm rhyngwladol a chasglu data, neu ar syniad a ddatblygir gennych chi eich hun, bydd y cwrs hwn yn ffordd fuddiol a gwerthfawr o dreulio diwrnod.

YSGOL DDOETHUROL– RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU – IONAWR- MAWRTH 2020

Ar gyfer ymholiadau e-bost: pgr@bangor.ac.uk. I gofrestru ar-lein ewch i'n tudalen Digwyddiadau : <https://www.bangor.ac.uk/doctoral-school/workshops/rhaglen>

Dyddiad	Amser	Enw'r Cwrs	Manylion y Cwrs
29/01/2020	9.30 yb - 10.30 yp	Cefnogaeth ymchwil a gweithdrefnau mewnol Prifysgol Bangor ar gyfer ceisiadau am grantiau - Seminar i fyfyrwyr ôl-radd ymchwil	Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar y gefnogaeth y gallwch ei chael gan y tîm cyn dyfarnu yn y Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith. Bydd staff yn y Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith yn esbonio'r prosesau mewnol sy'n gysylltiedig â datblygu eich cais am grant ac yn eich cyfeirio at wybodaeth ddefnyddiol. Yna byddwn yn ystyried y pwyntiau allweddol y dylech eu hystyried yn ystod y cam datblygu o ran paratoi eich cais. Ymdrinnir â'r canlynol yn y sesiwn: <ul style="list-style-type: none"> o Cefnogaeth cyn dyfarnu i ymchwilwyr o Prosesau mewnol - Paratoi eich cais o Galwadau, gofynion a chanllawiau cyllidwyr. o Nodi mentoriaid o Gweithio gyda phartneriaid
29/01/2020	11.00 yb - 12.00 yp	Cyfleoedd cyllido - Seminar i fyfyrwyr ôl-radd ymchwil	Yn dibynnu ar eich arbenigedd, mae cyllid ymchwil ar gael oddi wrth ystod eang o ffynonellau yn cynnwys Cynghorau Ymchwil y DU, y sector cyhoeddus a'r sector preifat a chyrrff elusennol. Bydd staff yn y Swyddfa Ymchwil, Arloesi ac Effaith yn rhoi trosolwg o rai o'r prif fathau o gynlluniau cyllido ymchwil. Ymdrinnir â'r canlynol yn y sesiwn: <ul style="list-style-type: none"> o Mathau o gynllunio cyllido ac ystyriaethau am gyfnodau gyrfa o Adnabod cyllidwyr
Jan	3 sessions	Gweithiwr Ymchwil Proffesiynol ar gyfer Ymchwilwyr Ôl-raddedig	Golwg gyffredinol ar y sesiynau: Hyfforddiant ymarferol anffurfiol i'ch galluogi i chwilio am yr opsiynau sydd ar gael gan ddefnyddio Research
31/01/2020	9.00 yb - 4.00 yp	Yr Arholiad Doethuriaeth-Gweithdy i archwilwyr ag ymgeision(* Ailadrodd yn Gorffennaf 2020)	<ul style="list-style-type: none"> • Penblethau Amanda: Mae Amanda gyda PhD ond erioed wedi' archwilio, yn adrodd ei stori. Mae'r timau yn ystyried y materion ei chafodd – <i>gan gyfeirio at reoliadau Prifysgol Bangor ar gyfer arholwyr</i>. Trafodaeth sesiwn lawn ar adroddiadau. • Cyflwyniad: arholiad doethuriaeth ym Mangor. Dangos 'Good Viva Video'. Trafodaeth sesiwn lawn. • Arfer Mwyaf Rhyfedd Jonathan: Stori archwilio Jonathan, beth aeth o'i le, a beth ddigwyddodd wedyn. Y syndicadau'n adrodd yn ôl. • Agenda'r cyfranogwyr: materion, cyngor, profiadau, awgrymiadau.

			<ul style="list-style-type: none"> Sesiwn cynllunio gweithredu: beth i'w wneud ac argymhellion i'r Brifysgol.
TBC	TBC	Diwrnod PhD – 'The Conversation'	<p>Mae cael erthygl wedi'i chyhoeddi am eich ymchwil neu eich arbenigedd yn adnodd gwerthfawr i wella eich proffil academiaidd a'ch CV wrth i chi baratoi i symud o fod yn fyfyrwr i fyd gwaith. Mae The Conversation yn ffynhonnell annibynnol o newyddion a safbwyntiau, o'r gymuned academiaidd ac ymchwil, ac mae'n cael ei chyflwyno'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae'n fodel unigryw sy'n galluogi academyddion a myfyrwyr ymchwil i ysgrifennu a chyhoeddi darnau a straeon cysylltiedig â'r newyddion yn seiliedig ar eu hymchwil, eu harbenigedd neu eu maes astudio. O ganlyniad i'n haelodaeth, rydym yn gallu cynnig cyfle i chi fynychu gweithdy ysgrifennu undydd gyda'r nod o gael erthygl, wedi'i hysgrifennu gennych chi, yn cael ei chyhoeddi gan The Conversation.</p>
March/ TBC	March/ TBC	Sesiwn NVivo rhagarweiniol	<p>Bydd y sesiwn hon yn rhoi cyflwyniad byr i NVivo 10 , pecyn cyfrifiadurol cynorthwyo dadansoddiad ansodol . Mae'r pecyn cyfrifiadurol yn offeryn sy'n cefnogi nifer o ddulliau dadansoddi data. Byddwn yn edrych ar y prif nodweddion a swyddogaethau a byddwch yn gallu i roi cynnig ar ychydig o eich hun. Nod y sesiwn yw rhoi trosolwg i chi o'r hyn y gellid NVivo ei ddefnyddio ar gyfer a nifer o adnoddau</p>
27/03/2020	9.30 yb - 4.00 yp	Gorffen a symud ymlaen	<p>"Mae dwy her ar ddiwedd doethuriaeth - ei chwblhau, a bod yn glir ynglŷn â beth sy'n dod nesaf. Yn ystod y cwrs 1-diwrnod hwn, byddwn yn archwilio'r elfennau allweddol o'r ddau. I gwblhau'r ddoethuriaeth, byddwn yn edrych yn fanwl ar beth rydych ei angen ei wneud i gwblhau thesis a fydd yn sicrhau eich bod yn llwyddo yn y viva, a beth fydd y viva ei hun yn ei olygu. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar y broses ysgrifennu a strwythurau'r thesis. Ond i wneud hyn, mae'n rhaid i chi oresgyn y rhwystr posibl na fyddwch yn gwybod beth i'w wneud ar ôl i chi orffen. Felly byddwn yn ystyried llwybrau gyfaol, sut i gael mynediad iddynt a sut y gallwch farchnata eich hun a'ch sgiliau'n llwyddiannus."</p>



Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Rhaglen Sgiliau Ymchwil

Cefnogi myfyrwyr ymchwil cyfrwng Cymraeg yw diben y Rhaglen Sgiliau Ymchwil, yr unig raglen hyfforddiant ymchwil ar gyfer myfyrwyr ôl-radd ac academyddion gyrfa gynnar a geir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymchwil/rhaglensgiliauymchwil/>

CYSYLLTU Â NI

Yr Artho John Turner

Deon Ymchwil Ol-radd

Penny Dowdney

Rheolwr yr Ysgol Ddoethurol

Ffôn : 01248 382266

Email: p.j.dowdney@bangor.ac.uk

Aashu Jayadeep

Gweinyddwr yr Ysgol Ddoethurol

Ffôn : 01248 382357

E-bost: a.jayadeep@bangor.ac.uk

YSGOL DDOETHUROL

Prifysgol Bangor

Bangor, Gwynedd,

LL57 2DG

www.bangor.ac.uk/doctoral-school/

Ffôn : 01248 382357

E-bost: pgr@bangor.ac.uk



[@PhD_BangorUni](https://twitter.com/PhD_BangorUni)